COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANGYNDEYRN A GYNHALIWYD AR 18fed o ORFFENNAF 2022 YN NEUADD PONTIETS AM 7.00 O'R GLOCH

Presennol: Ian Evans (Cadeirydd yn y gadair),Alan Lewis,Tyssul Evans, Caroline Williams, Linda Williams, Geraint Rosser, Meic Bowen, a'r Clerc,Glyndwr Prideaux.
Yn bresennol hefyd oedd y Cynghorwr Sir Meinir James.

Ymddiheuriadau: Heddwyn Jones,Aled Williams,Tracey James, Margaret Rees ac Aled Williams.

2854 Croesawyd pawb i'r Cyfarfod gan y Cadeirydd. Cydymdeimlwyd a Judith,merch Glyndwr ar golli ei Thad-yng-nghyfraith yn sydyn a diolchwyd i Linda ar drefni Ginio'r Cyngor i anrhegu'r Cyn-gynghorydd Geoff Hewitt a'r Briod Medwen.

2855 Cofnodion
Derbyniwyd a llofnodwyd cofnodion y Cyfarfodydd diwethaf ar 06/06/2022 fel rhai cywir.

2856 Materion yn codi.
Tud 1. Cofnod Rhif 2837 - Clwb Cymdeithasol Carwe. - Cafwyd adroddiad gan y Clerc. Adroddwyd bod y mater wedi ei throsglwyddo i'r Adran Rheoli Adeiladu fel mater o frys.
Tud 1. Cofnod Rhif 2837 - Cofeb Rhyfel Pontiets – Arhoswn am ymateb gan y 'War memorial Trust'.
Tud 1. Cofnod Rhif 2837 - Llwybr Treftadaeth – Arhoswn am ymateb oddiwrth Phil Wait.
Tud 1. Cofnod Rhif 2837 – Sedd yng Ngharwe – Arhoswn am ymateb oddiwrth y Cyngor Sir.
Tud 1. Cofnod Rhif 2837 - Meddygfa'r Sarn,Pontiets – Arhoswn am ymateb oddiwrth y Feddygfa. Derbyniwyd cwynion eto dros y dyddiau diwethaf. Byddwn yn cysylltu eto a'r Feddygfa.
Tud 1. Cofnod Rhif 2837 – Cysgodfa Bys – Tir Dafydd,Pontiets – Arhoswn am ymateb oddiwrth y Cyngor Sir.
Tud 1. Cofnod Rhif 2837 – Rhodfa Ceffylau – Arhoswn am ymateb oddiwrth y Cyngor Sir.

Gohebiaeth

Ceisiadau am grant/cyfraniadau ariannol:-

Cynghorwr Linda Williams, Cyn-gadeirydd yn y Gadair

Cynghorwyr Ian Evans a Tyssul Evans yn datgan diddordeb,arwyddo'r ffurflen a gadael y cyfarfod.

2857 Ffederasiwn Ysgolion Carwe,Gwynfryn a Phonthenri - Mabolgampau'r Ysgolion - Bws - Penderfynwyd danfon cyfraniad o £264 tuag at gostau'r Bws

2858 Cymdeithas Lesiant Carwe a'r Cylch - .Pads i'r Defibrilwr yn Neuadd Carwe. – Penderfynwyd talu am rai newydd.

2859 Cymdeithas Lesiant carwe a'r Cylch - Cais am nawdd ariannol o Adran 106 - Clwb Pêl-droed a Chriced Carwe - Cadair Lifft - Penderfynwyd cefnogi'r Cais.

Ian a Tyssul yn ail ymuno a'r cyfarfod.

Cynghorwr Ian Evans yn y gadair.

2860 Cymdeithas Lles Llangyndeyrn – Parc Llangyndeyrn - Penderfynwyd danfon cyfraniad o £700.

2861 Ambiwlans Awyr Cymru I Blant – Penderfynwyd danfon cyfraniad o £100.

Gohebiaeth gyffredinol :-

2862 CAVS- Community Halls Funding Opportunities – Nodwyd y Llythyr.

Ceisiadau Cynllunio

2863

a) Rhif y Cais - PL/04203- 22,Ffordd Maes Gwilym,Carwe - Estyniad – Dim Gwrthwynebiad.
b) Rhif y Cais - PL/04207 – Brynawel,Crwbin - Estyniad - Dim Gwrthwynebiad.

.

Gwaharddiad y Cyhoedd

2864 Penderfynwyd gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod o achos ein bod yn trafod materion cyfrinachol.

Adroddiad o Daliadau a Threuliau'r Mis

2865 Derbyniwyd adroddiad ariannol Mis Mehefin..Derbyniwyd argymhelliad y Clerc ein bod yn trosglwyddo gweddillion rhan o'r gyllideb sydd heb eu gwario i'r lein gyffredinol.

2866 Parc Pontiets - Cafwyd adroddiad gan y Clerc Mae problem wedi codi o osod CCTV yn y Parc. Gobeithir datrys hwn yn ystod y dyddiau nesaf.

2867 Diffibriliwr – Gobeithio y bydd y bocsys yn eu lle yn fuan iawn.

2868 Archwiliad Cyfrifon y Cyngor 2020 - 2021
Cafwyd adroddiad gan y Clerc. Darllenwyd y Llythyr oddiwrth Swyddfa Archwilio Cymru yn amgáu'r Farn archwilio - Heb gymwysterau. Nodwyd y Llythyr a diolchwyd i'r Clerc am ei waith ynglŷn â'r mater hwn.

2869 Cyfrifiadur Newydd – Wedi derbyn adroddiad gan y Clerc penderfynwyd prynu Cyfrifiadur newydd at waith y Clerc.

2870 Bord Picnic - Penderfynwyd gofyn am amcan brys i osod un ym Marc Gwynfryn.

Cyfarfod nesaf:- 5ed o Fedi 2022 – Neuadd Pontiets

Llofnodwyd……. CADEIRYDD

Dyddiad……